Corff Cynrychiolwyr Yr Eglwys yng Nghymru
The Representative Body of The Church in Wales

# Nodyn cyfarwyddyd i helpu Eglwysi i Ddatblygu Strategaeth Wresogi, tuag at Sero Net 2030

Date: 08/11/23
Version: 1.1

# Nodyn cyfarwyddyd i helpu Eglwysi i Ddatblygu Strategaeth Wresogi, tuag at Sero Net 2030

Bwriad y nodyn cyfarwyddyd hwn yw helpu Pwyllgorau Eglwysig ac Ymddiriedolwyr Ardaloedd Cenhadaeth/Ardaloedd Cenhadaeth Lleol i gael gwybodaeth am eu heffaith o ran carbon, a'r camau y gallant eu cymryd i ddatblygu strategaeth wresogi, wrth i ni weithio tuag at y targed sero net yn 2030. Mae cymorth ac arweiniad pellach ar gael gan Arolygydd Eglwysi eich Esgobaeth, yr Arolygydd Persondai, a chan yr Hyrwyddwr Newid Hinsawdd a Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr.

## Cam 1 – cofrestru i fod yn 'Eco Church' a chofrestru i ddefnyddio'r Offeryn Ôl Troed Ynni

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi creu partneriaeth gydag Arocha UK i sefydlu rhaglen Eco Church, ac mae adnoddau defnyddiol ar gael drwy eu gwefan, y gellir cael gafael arnynt drwy adran Newid Hinsawdd yr Eglwys yng Nghymru ar y wefan yma https://www.churchinwales.org.uk/en/about-us/our-campaigns/environment/.

**Y man cychwyn yw deall beth rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd, beth yw eich ôl troed carbon, a beth yw eich cynlluniau ar gyfer defnyddio'r adeilad.**

Mae'r adnodd Llwybr Ymarferol at Garbon Sero Net ar gyfer ein Heglwysi yn syml iawn i'w ddefnyddio a gellir cael gafael arno yma https://churchinwales.contentfiles.net/media/documents/2209_-_A_practical_path_to_net_zero_carbon_-_WELSH.pdf

Mae holiadur Eco Church yn ffordd ddefnyddiol hefyd o asesu ble rydych chi arni ar eich taith Eco ar hyn o bryd https://ecochurch.arocha.org.uk/wp-content/uploads/2022/09/Eco-Church-Survey-printable-copy-September-2022.pdf. Gallwch gofrestru yma https://app.ecochurch.org/user/login?destination=/signup.

Cofrestru ar gyfer y Pecyn Ôl troed Ynni yw'r man cychwyn hanfodol a gellir ei wneud yma https://eft-wales.parishreturns.info/. **Bydd Swyddfa eich Esgobaeth yn gallu rhoi eich cyfrinair i chi, er mwyn i'ch cyfrif unigryw ddechrau gweithio.** Gofynnir i bob Eglwys gofrestru a chwblhau'r arolwg fel rhan o'ch ffurflenni blynyddol.

Bydd y Pecyn Ôl troed Ynni yn rhoi ffigur i chi ac yn nodi amcangyfrif o'ch allyriadau carbon net blynyddol.

## Cam 2.1 – ar gyfer Eglwysi lle mae'r allyriadau CO2 net yn llai na 3 tunnell y flwyddyn.

Ar gyfer Eglwysi llai, a'r rhai sydd ag allyriadau CO2 isel iawn o tua 3 tunnell y flwyddyn neu lai, rhywbeth y gallwch ei wneud ar unwaith yw cofrestru gyda **chynllun Gwrthbwyso Carbon** addas, sydd ag enw da, fel yr un a weithredir gan **Climate Stewards** www.climatestewards.org

Am tua £100 y flwyddyn (pris Mehefin 2023) gallwch wneud taliad sy'n buddsoddi mewn mentrau sy'n helpu i wrthbwyso'r carbon rydych yn ei gynhyrchu ar hyn o bryd.

Ochr yn ochr â hyn, mae cyfleoedd eraill syml i leihau allyriadau carbon a'r defnydd o ynni fel y canlynol:

1. Newid i dariff ynni adnewyddadwy 100% ar gyfer eich defnydd o drydan.
2. Adolygu eich adroddiad QI diweddaraf a chychwyn atgyweiriadau syml i adeiladau – glanhau a chynnal cwteri, trwsio llechi to sydd ar goll neu wedi torri, trwsio ffenestri sydd wedi cracio neu ffenestri drafftiog, a gwasanaethu eich peiriant gwresogi.
3. Adnewyddu bylbiau golau gyda bylbiau LED ynni isel.
4. Gwneud cynllun ar gyfer adnewyddu peiriannau ac offer cyn iddynt fethu. Dylid adnewyddu gan ddefnyddio systemau gwresogi trydanol syml, cost isel, fel gwresogyddion sy'n mynd o dan y seti (corau), gwresogyddion hir y gellir eu gosod o dan y seti, coronas gwresogi, neu wresogyddion rheiddiol modern. Mae gan Eglwys Loegr nifer o astudiaethau achos defnyddiol y gellir eu gweld yma https://www.churchofengland.org/about/environment-and-climate-change/towards-net-zero-carbon-case-studies?search=&sort_bef_combine=created_DESC

## Cam 2.2 – ar gyfer Eglwysi ag Allyriadau Carbon blynyddol o rhwng 3 a 10 tunnell y flwyddyn

Yn union fel gyda'r uchod, eich ateb yn y tymor byr yw ystyried buddsoddi mewn cynllun gwrthbwyso carbon wrth i chi ystyried opsiynau eraill a rhoi cynlluniau eraill ar waith. Mae hyn yn debygol o gostio tua £300 y flwyddyn (Mehefin 2023).

Mae'r camau nesaf fel **y rhai a nodir uchod yng ngham 2.1** ond dylif ystyried y canlynol hefyd

1. Effeithlonrwydd ynni – mae boeleri sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac adeiladau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac adeiladau diddos, yn fwy effeithlon o ran ynni ac mae pob uned o ynni a ddefnyddir yn cael mwy o effaith. Mae hyn nid yn unig yn arbed carbon ond mae hefyd yn arbed arian tra bydd ar waith.
2. Lleihau ynni – gall offer rheoli gwell, fel switshis amser, parthau gwresogi y gellir eu rheoli, a goleuadau ynni isel leihau faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio ymhellach.

3. Adnewyddu peiriannau ac offer – cynllunio ar gyfer adnewyddu ar ddiwedd oes cyn cyrraedd y pwynt argyfwng! Rhwng nawr a 2030 bydd hyn yn golygu rhyw fath o system wresogi **trydan**.

Os ydych yn bwriadu defnyddio eich adeilad ar gyfer addoli yn unig, dangoswyd ei bod yn haws gwresogi seti neu gorau'r eglwys o gymharu â chadeiriau unigol hyblyg. Ar gyfer adeiladau sydd wedi'u llenwi'n bennaf â seti eglwys, yr ateb gorau fyddai system sy'n seiliedig ar wresogyddion trydan sy'n mynd o dan y seti neu wresogyddion hir y gellir eu gosod o dan y seti, wedi'u hategu gan wresogyddion lleol eraill fel gwresogyddion trydan clai-craidd, gwresogyddion rheiddiol neu wresogyddion golau corona uwchben.

Os oes gennych ofod hyblyg heb seti/corau, mae opsiynau trydan eraill ar gael a phrofwyd eu bod yn gweithio'n dda, gan gynnwys rheiddiaduron trydan, gwresogyddion corona, ac unedau rheiddiol a dylid gofyn am gyngor pellach gan Arolygydd Eglwysi eich Esgobaeth yn Swyddfa eich Esgobaeth. Mae gan Eglwys Loegr astudiaethau achos defnyddiol hefyd y gellir eu gweld yma https://www.churchofengland.org/about/environment-and-climate-change/towards-net-zero-carbon-case-studies?search=&sort_bef_combine=created_DESC

Efallai y gallai gosod arae solar a system storio batri helpu i wrthbwyso rhai o'ch costau rhedeg, ond rhaid rhoi ystyriaeth ofalus nid yn unig i'r effaith ar adeiladwaith adeiladau hanesyddol, ond hefyd i hyfywedd buddsoddiad o ran ynni a gynhyrchir yn erbyn cost cyfalaf cyn ymrwymo i'r buddsoddiad. Dylech ofyn am gyngor gan eich Ysgrifennydd DAC ac Arolygydd Eglwysi'r Esgobaeth (neu swyddog cyfatebol) cyn ymrwymo amser ac arian i ymchwilio i'r opsiynau hyn.

## Cam 2.3 – ar gyfer Eglwysi ag Allyriadau Carbon blynyddol o fwy na 10 tunnell y flwyddyn

Mae'n debygol y bydd hon yn Eglwys fwy a/neu'n un sy'n cael ei defnyddio yn ystod yr wythnos gyfan ar gyfer gweithgareddau amrywiol.

Fel gyda'r uchod, eich ateb yn y tymor byr yw ystyried buddsoddi mewn cynllun gwrthbwyso carbon wrth i chi ystyried opsiynau eraill a rhoi cynlluniau eraill ar waith. Mae hyn yn debygol o gostio mwy na £500 y flwyddyn (Mehefin 2023).

Mae'r camau nesaf fel **yr uchod yng ngham 2.1** ond dylid ystyried y canlynol hefyd

1. Effeithlonrwydd ynni – mae boeleri sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac adeiladau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac adeiladau sych, yn fwy effeithlon o ran ynni ac mae pob uned o ynni a ddefnyddir yn cael mwy o effaith. Mae hyn nid yn unig yn arbed carbon ond mae hefyd yn arbed arian tra bydd ar waith.
2. Lleihau ynni – gall offer rheoli gwell, fel switshis amser, parthau gwresogi y gellir eu rheoli, a goleuadau ynni isel leihau faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio ymhellach.

3. Gwneud cynllun ar gyfer newid ac adnewyddu peiriannau ac offer cyn i'r offer hwnnw fethu! Cyn cynllunio i wneud buddsoddiad cyfalaf mewn peiriannau ac offer newydd, dylid comisiynu **Archwiliad Ynni** i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniad. Mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru wedi cytuno i dalu am Archwiliadau Ynni fel y bo'n briodol. Mae rhagor o gymorth a chyngor ar gael gan Arolygwyr Eglwysi eich Esgobaeth, Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd Corff y Cynrychiolwyr a chan Dîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr.

## Cymorth ariannu

Lle bernir y byddai Archwiliad Ynni a gynhyrchir yn allanol yn briodol ac yn ddefnyddiol, mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru wedi cytuno i’w hariannu. Cysylltwch â Swyddfa eich Esgobaeth a Thîm Eiddo Eglwysig Corff y Cynrychiolwyr yn unol â hynny.

Mae'r meini prawf ar gyfer y Grantiau Gwella a weinyddir gan yr Esgobaeth sydd ar gael i Eglwysi wedi cael eu newid ac mae'r ffocws bellach ar gynorthwyo Eglwysi i ddarparu prosiectau a fydd yn helpu i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon, a chynyddu effeithlonrwydd ynni, yn ogystal â gwella bioamrywiaeth mewn Mynwentydd ac ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Siaradwch â Swyddfa eich Esgobaeth neu Dîm Eiddo Eglwysig Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

**Alex Glanville a Michael Plane**

**Medi 2023**